2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff CF10 4BZ

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

www.hefcw.ac.uk

Cylchlythyr | Circular

# Galw am Ddatganiadau o Ddiddordeb i wella gwaith Partneriaeth Ymgysylltu Dinesig Rhanbarthol

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 26 Mehefin 2024 | |
| **Cyfeirnod:** | W24/11HE | |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru | |
| **Ymateb erbyn:** | 25 Gorffennaf 2024 | |
| **Unigolyn cyswllt:** | Enw: | Meg Hughes |
| | Ffôn: | 029 2085 9716 |
| | E-bost: | meg.hughes@hefcw.ac.uk / meg.hughes@medr.cymru (o 1 Awst) |

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi manylion am gyllid CCAUC i gefnogi gwaith partneriaeth dinesig rhanbarthol ac yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan dri sefydliad addysg uwch yng Nghymru i ddatblygu ac/neu wella partneriaethau ymgysylltu dinesig rhanbarthol presennol.

Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn rhoi’r gorau i weithredu ar ôl 31 Gorffennaf 2024. Bydd dyletswyddau, cyfrifoldebau a staff CCAUC yn trosglwyddo i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, o 1 Awst 2024. Bydd unrhyw gylchlythyrau y mae gofyn rhoi sylw iddynt ar ôl 1 Awst 2024 ar gael ar wefan y Comisiwn o fis Awst.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
This document is also available in English | Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Y Cefndir

1. Mae cennad ddinesig yn gydnabyddiaeth bod gan brifysgolion yng Nghymru rwymedigaeth i wella'r cymunedau lleol a rhanbarthol y maent yn rhan ohonynt. Ymgysylltu dinesig yw'r broses a ddefnyddir i gyflawni hyn.

2. Cafodd y Rhwydwaith Cennad Ddinesig ei sefydlu gan Brifysgolion Cymru yn 2020 i gynorthwyo'r sector i ddatblygu ymagweddau at ymgysylltu dinesig, ac i adeiladu ar y modd y mae'r prifysgolion yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3. Bydd cennad ddinesig, o'i hysgogi gan ddadansoddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o anghenion ardal, yn creu budd sylweddol i gymunedau lleol a rhanbarthol yng Nghymru. Ceir nifer o enghreifftiau o brifysgolion yn cydweithio â phartneriaid dinesig eraill, gan gynnwys darparwyr addysg drydyddol eraill, i gyd-greu atebion i heriau cyffredin. Mae hyn yn helpu i gynyddu cyfraniad gweithgarwch dinesig i'r economi ac i gymdeithas hyd yr eithaf. Ystyrir mai'r ffordd hon o weithio, y tu hwnt i gwmpas cystadleuaeth a chynhyrchu incwm, gan gydnabod a dathlu cryfderau gwahanol sefydliadau, yw'r safon aur er mwyn datblygu a chyflawni ymgysylltiad dinesig.

4. Roedd adroddiad yr UPP yn 2019 Truly Civic yn argymell y dylai prifysgolion ddatblygu *'ymagwedd systematig a strategol at y rôl ddinesig, yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion ardal'.* Dadleuai hefyd fod angen gwaith partneriaeth agosach a mwy ymroddedig i gynyddu cyfraniad prifysgolion i'w lleoliadau hyd yr eithaf, wedi'i fynegi drwy Gytundebau Dinesig wedi'u llunio ar y cyd. Mae prifysgolion wedi dechrau mabwysiadu ymagwedd fwy strategol at fodloni anghenion y cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt, wedi'i chefnogi gan waith y Rhwydwaith Cennad Ddinesig, ond nid yw gweithgareddau ymgysylltu dinesig bob amser wedi'u seilio ar gytundebau ffurfiol i weithio mewn partneriaeth.

5. Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) yn dod yn weithredol o 1 Awst 2024. Bydd gan y Comisiwn ddyletswydd strategol i hyrwyddo cennad ddinesig, a ddiffinnir yn y Ddeddf fel *"gweithredu at ddiben hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru (gan gynnwys gweithredu sydd wedi ei anelu at gyflawni unrhyw un neu ragor o'r nodau llesiant".* Bydd dyletswydd ar y Comisiwn i hyrwyddo cennad ddinesig gan ddarparwyr addysg yng Nghymru (yn unigol ac/neu ar y cyd) o fewn y sectorau addysg bellach ac uwch. Gall y Comisiwn hefyd geisio hyrwyddo cennad ddinesig gan bersonau eraill y mae'n eu hariannu o dan y Ddeddf, ee, mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi. Bydd gan y Comisiwn hefyd ddyletswyddau strategol i hyrwyddo cydweithio a chydlyniant ar draws y sector addysg drydyddol, ac i hyrwyddo dysgu gydol oes.

6. Yn y Datganiad o Flaenoriaethau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y Comisiwn, canolbwyntir ar sicrhau bod y system addysg drydyddol yn cyfrannu at yr economi a chymdeithas, gan gynnwys hyrwyddo datblygiad gweithgarwch cennad ddinesig ymhellach, a sicrhau bod sefydliadau'n dysgu'r naill oddi wrth y llall er mwyn creu budd i gymdeithas ddinesig, ac i fod yn aelodau gwerthfawr o'u cymunedau lleol.

7. Pwrpas y cyllid hwn yw cefnogi'r broses o ffurfioli gwaith partneriaeth dinesig rhanbarthol a rhoi hwb i fecanweithiau ymgysylltu sy'n bodoli eisoes, er mwyn paratoi at yr adeg pan fydd y Comisiwn yn derbyn ei gyfrifoldebau.

**Cyllid Partneriaeth Ymgysylltu Dinesig Rhanbarthol**

8. Mae cyllid o £81,000 ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 i ysgogi gwaith partneriaeth dinesig rhanbarthol agosach a mwy ymroddedig rhwng prifysgolion a cholegau addysg pellach, a phartneriaid eraill perthnasol. Rhagwelir y bydd y cyllid yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng Gogledd, Canolbarth/Gorllewin a De Cymru (£27k fesul rhanbarth) a'i ddyrannu i sefydliad arweiniol ym mhob rhanbarth.

9. Gan adeiladu ar berthnasoedd sy'n bodoli eisoes rhwng prifysgolion a cholegau, dylid defnyddio'r dyraniad er mwyn helpu i ffurfioli gwaith partneriaeth dinesig lle nad oes eisoes gytundebau / ymrwymiadau ffurfiol i weithio mewn partneriaeth i ymdrin â heriau rhanbarthol.

10. Anogir ymgeiswyr i ystyried sut y bydd y partneriaethau'n ceisio ymgysylltu â darparwyr addysg drydyddol eraill, gan gynnwys darparwyr dysgu seiliedig ar waith, ac addysg oedolion a chymunedol. Gall partneriaethau hefyd gynnwys partneriaid dinesig eraill, fel awdurdodau lleol, partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, busnesau a'r gymuned, fel bo'n briodol.

11. Gwahoddir prifysgolion i ystyried eu mecanweithiau/cyfryngau presennol ar gyfer ymgysylltu dinesig rhanbarthol (ee, rhwydweithiau, partneriaethau, cytundebau dinesig neu ymrwymiadau) a chyflwyno datganiadau o ddiddordeb, mewn partneriaeth â phrifysgolion a cholegau eraill yn y rhanbarth, gan amlinellu sut y defnyddir cyllid i:

    a) wella'r mecanweithiau/cyfryngau sy'n bodoli eisoes ar gyfer ymgysylltu dinesig rhanbarthol, ee, drwy ymgysylltu ag ystod ehangach o bartneriaid;

    ac/neu

    b) ddatblygu cytundebau/ymrwymiadau dinesig newydd i weithio mewn partneriaeth i ymdrin â heriau rhanbarthol.

12. Bwriedir i'r hyblygrwydd hwn alluogi sefydliadau i fabwysiadu'r ymagwedd fwyaf effeithiol i'w rhanbarthau perthynol, yn seiliedig ar werthusiad o ymyriadau blaenorol ac i osgoi ail-wneud gwaith. Bwriedir iddo hefyd roi cyfrif am y ffaith bod prifysgolion mewn cyfnodau gwahanol o ran datblygu eu hymagweddau at ymgysylltu dinesig rhanbarthol, a bod yr heriau'n amrywio rhwng sefydliadau mewn gwahanol ardaloedd daearyddol.

13. Disgwylir i brifysgolion weithio gyda phrifysgolion a cholegau eraill yn y rhanbarth (ac unrhyw bartneriaid perthnasol eraill) i enwebu sefydliad arweiniol i gyflwyno'r datganiad o ddiddordeb, wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi gan bartneriaid eraill y rhanbarth. Bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu i'r sefydliad arweiniol ym mis Medi 2024. Bydd Prifysgolion Cymru yn cynnal digwyddiad lansio ym mis Tachwedd

2024. Bydd y digwyddiad dangos sut y caiff y cyllid ei ddefnyddio er mwyn helpu i ffurfioli cytundebau dinesig newydd a rhoi hwb i fecanweithiau sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwaith partneriaeth dinesig rhanbarthol.

**Canllawiau**

14. Anogir ymgeiswyr i weithio gyda phrifysgolion a cholegau eraill yn y rhanbarth i ddatblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer gwaith partneriaeth dinesig rhanbarthol, gan weithio ar draws y sector addysg drydyddol a thu hwnt.

15. Mae CCAUC yn cydnabod mai sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i nodi'r dulliau mwyaf effeithiol ar gyfer ymgysylltu dinesig, ac i ddiffinio'r hyn y mae llwyddiant yn ei olygu yn eu rhanbarthau perthynol.

16. Dylai ymgeiswyr ddisgrifio'r broses y mae'r partneriaethau'n bwriadu ei defnyddio i gasglu gwybodaeth am anghenion rhanbarthol, gan esbonio pam bod yr ymagwedd wedi'i mabwysiadu yn yr ardal neilltuol honno. Dylent amlinellu sut y maent yn bwriadu harneisio dirnadaeth, arbenigedd a gallu'r holl bartneriaid i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn ymdrin â'r heriau hyn.

17. Efallai y bydd partneriaethau am ganolbwyntio ar un mater yn benodol (ee, iechyd neu sgiliau), neu ar ystod ehangach o weithgareddau dinesig, yn dibynnu ar angen rhanbarthol, a chapasiti ac arbenigedd y sefydliad. Disgwylir y bydd y partneriaethau'n ehangu cwmpas eu gweithgareddau wrth i'r gwaith fagu gwreiddiau.

18. Anogir ymgeiswyr i ystyried mentrau allgymorth sy'n bodoli eisoes, fel Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach ac ystyried sut y gallai'r partneriaethau ymgysylltu dinesig ddysgu oddi wrth y partneriaethau hyn ac ychwanegu gwerth atynt.

19. Efallai y bydd ymgeiswyr hefyd yn dymuno ystyried sut y gall partneriaethau dinesig rhanbarthol gefnogi'r broses o gyflawni cynlluniau datblygu rhanbarthol presennol, ee, y Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) a ddatblygwyd gan Gydbwyllgorau Corfforedig. Dylid hefyd ystyried partneriaethau statudol eraill fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Gweithgarwch ar draws Cymru gyfan**

20. Bydd CCAUC yn parhau i ddarparu cyllid i Brifysgolion Cymru i gefnogi gweithgarwch ar draws Cymru gyfan. Rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys datblygu cyfleoedd i rwydweithio rhwng y partneriaethau rhanbarthol.

21. Bydd Prifysgolion Cymru yn cynnal digwyddiad(au) i ddangos sut mae addysg drydyddol yn cyfrannu i'w rhanbarth, ac yn cynnal gweithgarwch arall ym maes gwleidyddiaeth a chyfathrebu.

## Dyfarnu'r cyllid

22. Rhaid i gynigion gael eu datblygu ar y cyd a'u llofnodi gan yr holl sefydliadau partner addysg uwch ac addysg bellach sy'n cymryd rhan. Mae'n rhaid i'r brifysgol arweiniol ddangos bod ganddi gapasiti digonol i gyflawni'r cynnig yn effeithiol. Rhaid i gynigion hefyd ddangos bod gan bob partner y capasiti i ymgysylltu'n effeithiol.

23. Mewn achosion lle ceir eisoes gytundebau dinesig ffurfiol rhwng prifysgolion a cholegau, gellir defnyddio cyllid i wella ymagweddau presennol ac/neu gefnogi gwaith partneriaeth dinesig drwy'r mecanweithiau presennol hyn. Rhaid i gynigion ddangos gwerth ychwanegol.

24. Bydd CCAUC yn cynnal trafodaethau strategol ag ymgeiswyr ar ôl iddynt gyflwyno'r datganiadau o ddiddordeb i roi adborth a sicrhau bod y cynigion yn ddigon uchelgeisiol a realistig.

## Monitro

25. Gofynnir i sefydliadau arweiniol gyflwyno astudiaeth achos yn amlinellu'r ymagwedd a ddefnyddir at waith partneriaeth dinesig rhanbarthol erbyn **dydd Gwener 22 Mawrth 2025**. Darperir templed o astudiaeth achos yn **Atodiad B**.

## Amserlen

26. Darperir llinell amser isod.

| | |
|---|---|
| 25 Gorffennaf 2024 | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb |
| 1 Awst 2024 | Medr, Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn dod yn weithredol |
| Medi 2024 | Dyfarnu cyllid i'r brifysgol arweiniol |
| Tachwedd 2024 | Digwyddiad i ddangos sut y caiff y cyllid ei ddefnyddio er mwyn helpu i ffurfioli gwaith partneriaeth dinesig rhanbarthol rhwng AU ac AB. |
| 22 Mawrth 2025 | Cyflwyno astudiaeth achos i ddangos y gwerth a ychwanegir yn sgil ffurfioli'r gwaith Partneriaeth Ymgysylltu Dinesig Rhanbarthol. |

## Rhagor o wybodaeth / ymatebion i:

27. Darllenwch y nodiadau canllaw yn ofalus wrth ichi lenwi'r ffurflen. Darperir ffurflen gais yn **Atodiad A.**

28. Dylid cyflwyno ceisiadau drwy e-bost at Meg Hughes (meg.hughes@hefcw.ac.uk) **erbyn 18.00 ddydd Gwener 25 Gorffennaf 2024**.

29. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Meg Hughes, (029 2085 9716; meg.hughes@hefcw.ac.uk (neu meg.hughes@medr.cymru o 1 Awst 2024).

30. Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg, ac ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

31. Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn rhoi’r gorau i weithredu ar ôl 31 Gorffennaf 2024. Bydd dyletswyddau, cyfrifoldebau a staff CCAUC yn trosglwyddo i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, o 1 Awst 2024. Bydd unrhyw gylchlythyrau y mae gofyn rhoi sylw iddynt ar ôl 1 Awst 2024 ar gael ar wefan y Comisiwn o fis Awst.

32. Os oes arnoch angen cael gafael ar gyhoeddiad nad yw ar gael yn rhwydd ym mis Awst, anfonwch neges e-bost i cyhoeddiadau@medr.cymru.

## Asesu effaith ein polisïau

33. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio asesu effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.